



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
Shared Services
Partnership
Student Awards Services

Y Broses Ymgeisio a Thystiolaeth Cwestiynau Cyffredin

Adrannau:

1. Cynnydd eich Cais
2. Help gyda'ch Cais
3. Diwygio Cais
4. Tystiolaeth



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau Dyfarniadau
Shared Services
Partnership
Student Awards Services

Cwestiynau	Ymateb
1. Cynnydd eich Cais	
<p>Beth yw'r dyddiad cau i wneud cais am fy mwrsariaeth?</p>	<p>Myfyrwyr Newydd:</p> <p>Dylech wneud cais am eich bwrsariaeth GIG cyn gynted ag y byddwch wedi derbyn cynnig gan eich prifysgol ddewisol. Y dyddiad olaf ar gyfer gwneud cais yw 10 wythnos ar ôl dechrau'r cwrs. I gwrdd â'r dyddiad cau hwn, rhaid i chi gyflwyno cais am fwrsariaeth ar-lein gan uwchlwytho tystiolaeth ar bob adran lle gofynnir i chi wneud.</p> <p>Myfyrwyr Sy'n Parhau:</p> <p>Dylech ailymgeisio cyn gynted ag y bydd ceisiadau ar agor i sicrhau bod eich bwrsariaeth yn parhau i'r Flwyddyn Academaidd nesaf heb oedi. Dylai myfyrwyr edrych ar ein gwefan i weld pryd mae ceisiadau ar gael.</p> <p>Gwefan: Sut alla i wneud cais am fwrsariaeth? - Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru</p>
<p>Ar ôl i mi gyflwyno fy nghais, pa mor hir fydd hi cyn i mi dderbyn diweddariad?</p>	<p>Unwaith y bydd cais wedi'i gyflwyno, ein nod yw prosesu ceisiadau cyn gynted â phosibl, yn ystod cyfnodau prysur gall gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith i'ch cais gael ei adolygu a'i asesu gan Aseswr. Os bydd unrhyw broblemau gyda'ch cais, neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnom, byddwn yn cysylltu â chi naill ai drwy e-bost neu drwy eich cyfrif Bwrsariaeth GIG Cymru.</p>

	Pa wefan yw'r orau i ymweld â hi?	Sut alla i wneud cais am fwrsariaeth? - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
	Sut alla i wirio cynnydd fy nghais ar gyfer Bwrsariaeth?	<p>Mae cynnydd eich cais i'w weld ar eich cyfrif,</p> <p>Yn aros i'r PCGC – Yn aros i gael ei asesu/edrych ar y cais gan aseswr.</p> <p>Ymholiad i'r Myfyriwr – Mae aseswr wedi gofyn am ragor o dystiolaeth i'w huwchlwytho i'ch cyfrif. Peidiwch ag anghofio cadw ac ailgyflwyno'r cais unwaith y bydd y dystiolaeth wedi'i huwchlwytho.</p> <p>Yn aros i'r Brifysgol - Mae'r cais wedi'i gymeradwyo a'ch prifysgol wedi'i hysbysu, ac fe fyddan nhw'n trefnu taliadau mewn rhandaliadau, fel arfer dros 12 mis, bob tymor i fyfyrwyr Meddygol.</p>
	Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r Fwrsariaeth gael ei hasesu?	Unwaith y bydd y fwrsariaeth wedi'i hasesu a'i chwblhau, byddwch yn derbyn e-bost yn dweud ei bod wedi'i chymeradwyo gyda Hysbysiad o Ddyfarniad. Bydd eich prifysgol yn derbyn hysbysiad bod eich Bwrsariaeth wedi'i chymeradwyo a bydd yn trefnu taliad yn unol â hynny.
2. Help gyda'ch Cais		
	Beth yw'r terfynau amser ar gyfer gwneud cais am Fwrsariaeth GIG?	<p>Dylech wneud cais am eich bwrsariaeth GIG cyn gynted ag y byddwch wedi derbyn cynnig gan eich prifysgol ddewisol. Y dyddiad olaf ar gyfer gwneud cais yw 10 wythnos ar ôl dechrau'r cwrs.</p> <p>I gwrdd â'r dyddiad cau hwn, rhaid i chi gyflwyno cais am fwrsariaeth ar-lein a'r holl dystiolaeth y gofynnir amdani i'w huwchlwytho ar y cais.</p> <p>Os bydd eich amgylchiadau'n newid mewn unrhyw ffordd, rhaid i chi roi gwybod i'r Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr a darparu'r holl dystiolaeth ofynnol a llythyr eglurhaol i egluro'r newid, o fewn 6 mis i ddyddiad eich newid i gael eich ystyried ar gyfer ailasesiad.</p>
	Sut a phryd y telir Bwrsariaeth GIG Cymru?	Unwaith y bydd y cais wedi'i gymeradwyo, eich prifysgol sy'n gyfrifol am wneud taliadau felly cysylltwch ag Adran Gyllid eich Prifysgol a fydd yn gallu rhoi cyngor pellach i chi.

	<p>A all fy Rhiant(rieni) Partner/Partner Sifil/Priod neu gynrychiolydd arall gwblhau'r Cais ar fy rhan?</p>	<p>Na - Bydd angen i chi gwblhau'r cais yn uniongyrchol, fodd bynnag ar rai adrannau o'r Ffurflen Gais am Fwrsariaeth, mae meysydd ychwanegol lle gallai fod angen gwybodaeth bellach gan naill ai eich rhieni neu unrhyw un arall sy'n ymwneud â chi'ch hun.</p>
	<p>Os bydd fy Rhiant(rhieni), Partner/Partner Sifil/Priod neu gynrychiolydd 3^{ydd} parti yn cysylltu â Desg Gymorth Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr, a allan nhw drafod fy nghais ar fy rhan?</p>	<p>Gallan – Byddai angen i chi anfon eich caniatâd mewn e-bost ac enwi'r person rydych wedi'i enwebu i drafod eich cais i: E-bost abm.nhs@wales.nhs.uk</p>
	<p>Ble galla i ddod o hyd i'm Rhif Ymgeisydd / Cyfeirnod Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr?</p>	<p>I ddod o hyd i'r wybodaeth hon, dylid dangos eich rhif cyfeirnod pan fyddwch yn mewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein a dylai ddechrau gyda SAS, ac yna 6 rhif, Er enghraifft: SAS000000</p>
	<p>Dydw i ddim yn deall beth mae rhai o'r cwestiynau yn ei ofyn i mi ar y</p> <p>Ffurflen gais, beth ddylwn i ei wneud?</p>	<p>O fewn y Ffurflen Gais ar-lein, mae gan rai cwestiynau opsiwn i glicio ar 'awgrym' sy'n darparu gwybodaeth bellach. Ble bynnag y gwelwch chi '?' wrth ymyl cwestiwn, bydd angen i chi hofran dros y symbol hwn. Yna, dylai blwch gwybodaeth ymddangos gyda rhagor o fanylion.</p> <p>Fel arall, am gefnogaeth gyda'ch cais, cyflwynwch unrhyw ymholiadau sydd gennych trwy ein e-bost generig abm.nhs@wales.nhs.uk neu cysylltwch â ni trwy'r ddesg gymorth lle gallwn eich cynorthwyo ymhellach Ffôn 02921 500400</p>

	<p>A oes angen i mi gwblhau cais bob blwyddyn rwyf am wneud cais am y Fwrsariaeth?</p>	<p>Oes, bydd angen i chi wneud cais am eich bwrsariaeth bob blwyddyn academaidd er mwyn i'ch cyllid barhau.</p>
	<p>Beth yw myfyriwr annibynnol?</p>	<p>Mae ein rheoliadau yn nodi mai'r meini prawf i'w dosbarthu fel Myfyriwr Annibynnol yw: -</p> <ul style="list-style-type: none"> Rydych yn briod, mewn partneriaeth sifil, wedi gwahanu, wedi ysgaru neu'n weddw. Rydych dros 25 oed cyn i'r cwrs ddechrau. Mae gennych ofal am blentyn. Nid oes gennych unrhyw rieni byw. Rydych wedi cynnal eich hun o'ch enillion eich hun am gyfanswm cyfanredol o 36 mis cyn dechrau'r flwyddyn academaidd gyntaf. Sylwch fod yn rhaid i hyn eithrio unrhyw gyfnodau o addysg amser llawn. Rydych chi wedi ymddieithrio'n anghymodlon oddi wrth eich rhieni. Ystyrir bod myfyriwr wedi ymddieithrio'n anghymodlon oddi wrth ei riant(rhieni) os nad ydyn nhw wedi cyfathrebu â'r naill na'r llall ohonyn nhw am gyfnod o 12 mis o leiaf. <p><i>Mae'r cyfrifoldeb ar y myfyriwr i ddarparu tystiolaeth gadarn a dibynadwy yn cadarnhau'r ymddieithrio a'r rhesymau drosto. Wrth edrych ar ymddieithrio nid yw'n ddigon nad yw myfyriwr yn cyd-dynnu â'i riant/rhieni neu ei fod yn bosibl ei fod wedi cael rhyw fath o ddadl neu anghytundeb yn ddiweddar. Hefyd, nid yw'r ffaith y gall myfyriwr ddewis byw ar wahân i'w riant/rhieni ynddo'i hun yn ddigon o dystiolaeth o ymddieithrio. Ymhellach, ni ellir ystyried ymddieithrio dim ond oherwydd bod rhiant yn gwrthod cydweithredu wrth asesu grant y myfyriwr, e.e. trwy wrthod llenwi'r ffurflenni cais, neu oherwydd nad yw'r rhiant yn rhoi cymorth ariannol.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> Rydych yn aelod o urdd grefyddol ac yn byw yn nhŷ'r urdd

3. Diwygio Cais

	<p>Rwyf wedi gwneud camgymeriad ar fy ffurflen gais, sut ydw i'n cywiro hyn ar ôl ei chyflwyno?</p>	<p>Gallwch wneud newidiadau i'ch cais gan wneud yn siŵr eich bod yn eu cadw ac yn ailgyflwyno'r cais, os o fewn y flwyddyn academaidd, i ni ystyried unrhyw ailasesiad.</p>
--	---	---

	Beth ddylwn i ei wneud os bydd fy amgylchiadau'n newid?	Os bu newid mewn amgylchiadau ers cyflwyno'ch cais cychwynnol am fwsariaeth, a fydddech cystal â diwygio'r cais i adlewyrchu'r newid gyda llythyr eglurhaol i egluro'r newid a'r dyddiad y digwyddodd hyn, ac uwchlwythwch unrhyw dystiolaeth sydd ei hangen.
	Sut ydw i'n rhoi gwybod i chi am newid cyfeiriad?	Os bu newid cyfeiriad ers cyflwyno eich cais cychwynnol am fwsariaeth, Mewngofnodwch i'ch cyfrif ar-lein a newidiwch y cyfeiriad ac uwchlwythwch dystiolaeth o hyn megis Treth y Cyngor, cytundeb tenantiaeth, datganiad morgais.
	Sut mae rhoi gwybod i chi am newid enw?	Os bu newid enw ers cyflwyno'ch cais cychwynnol am fwsariaeth, mewngofnodwch i'ch cyfrif ar-lein a'i ddiwygio ac uwchlwytho dystiolaeth i gefnogi'r newid.
	Sut mae newid manylion fy nghyfrif Banc?	Bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein a newid y manylion fel y dymunwch, eu cadw, ac ailgyflwyno'r cais. Rhowch wybod i'ch prifysgol hefyd am y newid i sicrhau bod y Fwsariaeth yn cael ei thalu i'r cyfrif cywir.
	A allaf newid o fod yn fyfyrwr dibynnol i fyfyrwr annibynnol?	<p>Efallai y gallwch newid eich statws o ddibynnydd i myfyriwr annibynnol mewn rhai amgylchiadau.</p> <p>Ni fyddwch yn gallu newid eich statws ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn.</p> <p>Os bydd eich amgylchiadau'n newid, mewngofnodwch i'ch cyfrif ar-lein gan ddiwygio'r manylion i adlewyrchu'r newid ynghyd â llythyr i egluro'r newid a'r dyddiad y digwyddodd hyn.</p> <p>Gall eich statws newid am y rhesymau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Priodas / Phartneriaeth sifil • Mae gennych ofal am blentyn gan gynnwys gwarcheidiaeth gyfreithiol r • Mae eich rhiant(rhieni) yn marw <p>Os byddwch yn dod yn annibynnol am unrhyw un o'r rhesymau hyn, bydd eich statws newid yn dod yn annibynnol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf.</p> <p>Os nad oeddech yn sylweddoli eich bod wedi cyflawni'r meini prawf i gael annibynnol ar ddechrau eich blwyddyn academaidd, mae gennych 6 mis o ddechrau'r flwyddyn academaidd i'n hysbysu ac anfon y dystiolaeth berthnasol. Byddwn yn gallu adolygu eich cais ac ailasesu yn unol â hynny.</p> <p>Os byddwch yn methu'r dyddiad cau o 6 mis, ni allwch wneud cais am ailasesiad o'ch dyfarniad ar gyfer y flwyddyn academaidd honno. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eich atal rhag gwneud cais mewn blynyddoedd dilynol fel myfyriwr annibynnol.</p>

Rwy'n fyfyrwr
annibynnol ac wedi
priodi'n ddiweddar,
sut fydd hyn yn
effeithio ar fy
Mwrsariaeth GIG
Cymru?

Eisoes yn cyd-fyw cyn priodi:

Os yw'r asesiad cychwynnol wedi cynnwys incwm a threuliau eich partner oherwydd eich bod yn cyd-fyw, ni fydd angen ailasesu eich dyfarniad bwrsariaeth sylfaenol neu unrhyw lwfansau ychwanegol yr ydych wedi gwneud cais amdanynt.

		<p>Ddim yn cyd-fyw cyn priodi</p> <p>Os cafodd yr asesiad cychwynnol ei brosesu fel 'sengl', ac nad oeddech yn byw gyda'ch priod cyn y briodas, bydd angen ailasesu eich dyfarniad bwrsariaeth sylfaenol i ystyried incwm a threuliau eich priod. Mae hyn os ydych chi'n byw gyda'ch gilydd nawr neu beidio. Yna byddai eich dyfarniad sylfaenol yn ffigwr cyfanredol o'ch hawl hyd at ddyddiad y briodas a hawl newydd yn seiliedig ar brawf modd ar incwm eich priod o ddyddiad y briodas hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd.</p> <p>Gallwch hefyd wneud cais am Lwfans Dibynnydd ar gyfer eich priod ac unrhyw blant sy'n ddibynnol arnoch yn ariannol.</p> <p>Os bu newid mewn amgylchiadau ers cyflwyno eich cais cychwynnol am fwrsariaeth, e-bostiwch abm.sas@wales.nhs.uk yn amlinellu eich newid mewn amgylchiadau ochr yn ochr â'r dyddiad dod i rym yn newid. Cofiwch gynnwys eich enw, eich dyddiad geni a'ch rhif Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwr yn eich e-bost.</p> <p>Gofynnir i chi gyflwyno cais newydd drwy eich cyfrif BOSS a darparu'r dystiolaeth ategol y gofynnir amdani yn eich E-bost Tystiolaeth diwygiedig.</p>
	<p>A ellir ailasesu fy Ngwobr Bwrsariaeth GIG Cymru os ydy incwm fy Rhiant(rieni) / Priod / Partner Sifil / Partner wedi gostwng?</p>	<p>Os bu gostyngiad o 15% neu fwy yn incwm y cartref, lawrlwythwch y ffurflen o'n gwefan LINK</p> <p>Mae holl Aseidiadau Incwm y Flwyddyn Gyfredol yn cael eu hadolygufesul achos ac nid oes unrhyw sicrwydd y gallwn ailasesu eich hawl.</p> <p>Bydd unrhyw ailasesiadau sy'n seiliedig ar incwm amcangyfrifedig yn rhai dros dro a gallan nhw newid unwaith y bydd tystiolaeth incwm terfynol wedi'i darparu.</p> <p>Myfyrwyr Blwyddyn Olaf: Ni fyddwn yn gallu ystyried ailasesiad hyd nes y bydd tystiolaeth ddogfennol derfynol o incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol ar gael.</p>
	<p>Os caiff fy Ngwobr Bwrsariaeth GIG Cymru ei ailasesu oherwydd gostyngiad yn incwm y cartref, incwm pa flwyddyn ariannol fydd yn</p>	<p>Byddwn yn adolygu'r incwm a ddefnyddiwyd yn yr asesiad cychwynnol ac yn ei gymharu â'r flwyddyn ariannol (cyfredol) ddilynol i benderfynu a ydych yn gymwys ar gyfer Aseiad Incwm y Flwyddyn Gyfredol.</p> <p>Er enghraifft, os yw eich hawl i fwrsariaeth wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2023. Byddai blwyddyn gyfredol yn cael ei hystyried ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2024 yn unig.</p>

	cael ei ddefnyddio yn yr ailasesiad hwn?	Byddwch yn ymwybodol na fyddwn yn gallu gadael blwyddyn ariannol allan.
	A oes angen ailasesu fy Ngwobr Bwrsariaeth GIG Cymru os yw incwm fy rhiant(rhieni) / Priod / Partner Sifil / Partner wedi cynyddu?	<p>Nac oes, os bydd cynnydd mewn incwm, ni fydd angen i chi gyflwyno cais newydd. Bydd unrhyw gynnydd mewn incwm yn cael ei ystyried ar gyfer eich cais adnewyddu.</p> <p>Os ydych wedi cael Aseiad Incwm y Flwyddyn Gyfredol wedi'i gymeradwyo a bod cynnydd wedi bod yn yr incwm amcangyfrifedig a ddatganwyd, dylech gysylltu â ni ar unwaith fel y gallwn adolygu eich hawl i gael dyfarniad. Bydd hyn yn atal unrhyw ordaliadau diangen.</p>
	Oes angen i mi roi gwybod i chi am unrhyw newid yn fy incwm fy hun?	<p>Os ydych yn fyfyrwr Llawn Amser, dylech roi gwybod i ni am unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn eich incwm sydd heb ei ennill yn ystod y flwyddyn academiaidd gyfredol megis incwm o rent neu eiddo, pensiwn ac ati.</p> <p>Os ydych yn fyfyrwr rhan-amser, dylech roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau mewn incwm a enillwyd megis cyflogaeth neu hunangyflogaeth.</p> <p>Gall unrhyw newidiadau effeithio ar eich hawl.</p>
	Sut bydd fy Lwfans Dibynnydd yn cael ei effeithio os byddaf i neu fy Mhartner / Partner Sifil / Priod wedi cael babi?	<p>Os byddwch chi neu'ch Partner/Partner Sifil/Priod yn rhoi genedigaeth ran o'r ffordd drwy'r Flwyddyn Academiaidd, efallai y bydd gennych hawl i hawlio'r lwfansau prawf modd ychwanegol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lwfans Dibynnyddion (Deps) • Lwfans Dysgu i Rien (PLA) • Lwfans Gofal Plant (CCA) - Ddim yn berthnasol i fyfyrwyr sydd ar Absenoldeb Mamolaeth ar hyn o bryd. <p>Eisoes wedi gwneud cais am lwfansau ychwanegol</p> <p>Os ydych eisoes wedi cael eich asesu ar gyfer Lwfans Dibynnydd, gallwch wneud cais i ychwanegu eich plentyn ychwanegol at yr asesiad. Bydd gofyn i chi ddiwygio'r cais a darparu llythyr eglurhaol yn cadarnhau'r rheswm dros y diwygiad. Ac uwchlwythwch Fersiwn Hir y Dystysgrif Geni ar gyfer y plentyn a thystiolaeth Budd-dal Plant/Credyd Cynhwysol diwygiedig i gefnogi'r newid.</p> <p>Bydd eich hawl newydd i Lwfans Dibynnydd yn cael ei gyfrifo o ddyddiad geni eich babi hyd at ddiwedd y Flwyddyn Academiaidd.</p> <p>Ddim wneud gwneud cais am lwfansau ychwanegol yn barod</p> <p>Os ydych yn derbyn y dyfarniad sylfaenol yn unig ar hyn o bryd, gallwch wneud cais am Lwfans Dibynnydd ar gyfer eich plentyn newydd (a Phartner / Partner Sifil / Priod os yw'n berthnasol). Byddai angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein a diwygio'r cais i</p>

		<p>adlewyrchu'r newidiadau gyda llythyr eglurhaol i gadarnhau'r rheswm dros y newid ac uwchlwytho'r dystiolaeth ofynnol. Bydd eich hawl i Lwfans Dibynnydd (Deps), Lwfans Dysgu i Rieni (PLA) a Lwfans Gofal Plant (CCA) yn cael ei gyfrifo o ddyddiad geni'r babi hyd at ddiwrnod olaf y flwyddyn academaidd.</p>
--	--	--

4. Tystiolaeth

	<p>Pa dystiolaeth sydd angen i mi ei chyflwyno gyda fy Nghais?</p>	<p>Bydd y dystiolaeth y gofynnir amdani yn dibynnu ar yr hyn yr ydych wedi gwneud cais amdano. Bydd gofyn i chi uwchlwytho'r dystiolaeth wrth i chi symud ymlaen trwy bob adran o'r cais ar-lein.</p>
	<p>Pam fod angen i mi anfon tystiolaeth bellach i gefnogi fy Nghais?</p>	<p>Mewn rhai achosion, mae angen tystiolaeth bellach arnom i fwrw ymlaen â'ch Cais. Gall hyn fod oherwydd diffyg tystiolaeth nad yw'n bodloni'r meini prawf, rhai dogfennau heb eu darparu neu dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen oherwydd anghysondebau.</p> <p>Os na allwn fynd ymlaen â'r asesiad, byddwn yn cysylltu â chi drwy e-bost i ofyn am ragor o wybodaeth / tystiolaeth.</p>
	<p>Rwyf wedi derbyn e-bost yn gofyn am dystiolaeth bellach cyn y gallwch brosesu fy Nghais, a fydd hyn yn effeithio ar yr amser asesu?</p>	<p>Ein nod yw asesu eich cais o fewn 20 diwrnod gwaith. Os bydd angen i ni gyflwyno tystiolaeth bellach, gallai hyn achosi oedi cyn cymeradwyo'ch cais. Unwaith y bydd y dystiolaeth bellach y gofynnwyd amdani wedi'i huwchlwytho, bydd eich cais yn ymuno â'r ciw asesu a'n nod yw adolygu'ch cais ynghyd â'r dystiolaeth newydd o fewn 20 diwrnod gwaith arall. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu'r holl dystiolaeth y gofynnir amdani er mwyn osgoi oedi wrth brosesu eich cais.</p> <p>Asesir eich dyfarniad bwrsariaeth am y Flwyddyn Academaidd lawn, felly bydd unrhyw daliadau a gollwyd yn cael eu hôl-ddyddio.</p>
	<p>A gaf i ddod â'm tystiolaeth yn uniongyrchol i'ch swyddfa / swyddfa sganio?</p>	<p>Na – RHAID uwchlwytho'r holl dystiolaeth i'ch cyfrif.</p>
	<p>Beth yw ffurflenni P2 a P11D?</p>	<p>Gofynnir am y rhain os nad yw'r cod treth a ddatganwyd yn safonol. Mae Hysbysiad Cod P2 neu TWE yn llythyr a gyhoeddir gan CThEF i gadarnhau sut y cyfrifir cod treth a lwfans treth personol. Mae P11D yn ddatganiad a gyhoeddir gan y cyflogwr i gadarnhau lwfansau trethadwy (h.y. car cwmni, yswiriant meddygol preifat ac ati) a dderbyniwyd o fewn y flwyddyn ariannol. Bydd yn dibynnu ar beth yw'r codau treth a beth sydd wedi'i nodi ar y cais er mwyn penderfynu a oes angen y dystiolaeth hon. Bydd angen i chi uwchlwytho tystiolaeth lle mae ffigur wedi'i nodi o dan y lwfans trethadwy neu flwch Tanysgrifiad Proffesiynol y cais.</p>

	<p>Nid oes gennyf dystysgrif geni gan fy mod wedi cael fy mabwysiadu, a fydd Tystysgrif Mabwysiadu yn iawn i'w chyflwyno?</p>	<p>Bydd, gallwch gyflwyno eich Tystysgrif Mabwysiadu fel tystiolaeth; ynghyd â'ch Pasbort neu Drwydded Yrru.</p>
	<p>Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi fy mod wedi</p>	<p>Mae'n bosibl y gofynnir am y dystiolaeth ganlynol i brofi eich bod chi neu'ch rhiant yn sengl:</p>

<p>gwahanu oddi wrth Briod / Partner Sifil / Partner?</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Bil Treth y Cyngor yn dangos yn glir eithriad myfyriwr llawn neu feddiannaeth sengl. • Hysbysiad Dyfarniad Credydau Treth / Hysbysiad dyfarniad LLAWN Credyd Cynhwysol yn dangos eich bod chi / eich rhiant yn cael eich talu fel person sengl. • Llythyr gan berson proffesiynol sy'n gallu dilysu'r amgylchiadau'n annibynnol, megis cyfreithiwr. Dylai'r llythyr gynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn/cyfeiriad e-bost y person proffesiynol. <p>Bydd methu â darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi wrth asesu eich cais.</p>
<p>Rwy'n fyfyrwr annibynnol a oedd yn briod neu a oedd â Phartner/Partner Sifil ar ddechrau'r Flwyddyn Academaidd. Rydym bellach wedi gwahanu ond rydym yn dal i fyw yn yr un cartref. Sut bydd hyn yn effeithio ar fy mwrsariaeth?</p>		<p>Bydd angen i chi ddarparu llythyr gan berson proffesiynol, yn ddefnyddol dylai hwn fod yn gyfreithiwr. Dylai'r llythyr gadarnhau eich bod yn rhannu eiddo am resymau ariannol a'ch bod chi a'ch cyn briod neu bartner yn byw bywydau cwbl ar wahân. Os na allwch chi ddangos eich bod yn annibynnol yn ariannol ar eich cyn briod neu bartner, yna bydd eich bwrsariaeth yn dal i gael ei hasesu o ran incwm gan ddefnyddio incwm eich priod neu bartner.</p> <p>Ar gyfer Lwfans Dibynnyddion:</p> <p>Os ydych yn derbyn Lwfans Dibynnyddion a/neu Lwfans Gofal Plant cyn i chi wahanu, bydd angen ailasesu'r lwfansau ychwanegol hyn.</p> <p>Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth mai chi yw'r rhiant sy'n bennaf gyfrifol am gynnal a chadw'n ariannol unrhyw blant oherwydd mewn gwirionedd byddan nhw'n dal i fod yn byw gyda'r ddau riant. Byddai angen i hyn fod ar ffurf cytundeb cyfreithiol yn nodi mai chi sy'n gyfrifol am y plant.</p> <p>Os oeddech yn hawlio Lwfans Dibynnydd ar gyfer eich priod neu bartner yn unig, bydd hyn yn cael ei atal o'r dyddiad gwahanu.</p> <p>Os nad oeddech yn cael Lwfansau Dibynnyddion yn flaenorol oherwydd incwm eich partner, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer hyn yn awr os oes gennych blant sy'n ddibynnol arnoch yn ariannol. Bydd Lwfans Dibynnydd yn cael ei ailasesu o'r dyddiad gwahanu.</p>
<p>Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi unrhyw absenoldeb dros dro o'r DU?</p>		<p>Os ydych wedi cael unrhyw absenoldebau dros dro neu achlysurol o'r DU o fewn y 3 blynedd cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf, efallai y gofynnir i chi ddarparu'r dystiolaeth ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eich Visa/Trwydded Preswyllo dros dro yn dangos yn glir ddyddiad dod i ben ar gyfer eich amser a dreuliwyd dramor. • Eich contract cyflogaeth tra'n byw dramor, yn dangos mai dros dro ydoedd.

		<ul style="list-style-type: none"> • Cytundeb cyflogaeth eich rhiant (rhieni) [os yn ddibynnol] tra'n byw dramor, gan ddangos mai dros dro ydoedd. • Tystiolaeth eich bod wedi cynnal cartref yn y DU tra dramor h.y. Bil Treth y Cyngor am y 3 blynedd diwethaf • Tystiolaeth o gysylltiadau parhaus â'r DU, megis prawf o atebolrwydd am dreth y DU, taliadau morgais parhaus neu ymweliadau dychwelyd rheolaidd â'r DU. <p>Byddwch yn ymwybodol, os na allwch chi ddarparu tystiolaeth i ddangos bod eich amser o'r DU yn gyfnod dros dro, ni fyddwch yn gymwys i gael Bwrsariaeth GIG Cymru a bydd eich cais yn cael ei ganslo.</p>
	<p>Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi enillion o gyflog (enillion cyflogedig)?</p>	<p>Gellir derbyn unrhyw un o'r mathau canlynol o dystiolaeth i brofi enillion cyflogedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tystysgrif Enillion P60 • Slip cyflog mis Mawrth (wythnos 52/53 neu fis 12) yn dangos ffigur y flwyddyn hyd yma. • Llythyr gan eich cyflogwr i gadarnhau. Rhaid i'r llythyr hwn gynnwys yr un wybodaeth ag y byddai P60 neu slip cyflog yn ei darparu. • Hanes Gwaith CThEF. Gellir cysylltu â CThEF drwy ffonio 0300 2003300. Sylwch: mae Hanes Gwaith CThEF yn ddogfen wahanol i'r Hysbysiad Dyfarniad Credydau Treth / Datganiad Credyd Cynhwysol. Ni allwn dderbyn Hysbysiad Dyfarniad Credydau Treth / llythyr Credyd Cynhwysol fel prawf o incwm. • Byddwn hefyd yn derbyn sgrinluniau wedi'u huwchlwytho i'ch cyfrif o gyfrif Porth y Llywodraeth os oes gennych un, rhaid iddo ddangos eich enw/incwm blwyddyn lawn yn cyfeirio ato a chod treth. • Crynodeb treth blynyddol CThEF. • P45 (Dim ond ar gyfer enillion o'r gyflogaeth benodol honno y bydd hyn yn dderbyniol, bydd angen darparu unrhyw incwm trethadwy arall. <p>Bydd methu â darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi wrth asesu eich cais.</p>

	<p>Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi cyfraniadau pensiwn gweithiwr?</p>	<p>Os ydych yn darparu eich P60 fel dystiolaeth o incwm o gyflogaeth, bydd hyn yn dangos eich tâl trethadwy hyd yma ar ôl didynnu cyfraniadau pensiwn gweithiwr ni fyddai angen dystiolaeth bellach.</p>
--	---	--

	<p>A oes angen i mi ddatgan Lwfans Gofalwr Maeth a pha dystiolaeth sydd ei hangen?</p>	<p>Oes – Bydd angen i chi ddatgan Lwfans Gofalwr Maeth ar eich Cais fel incwm o hunangyflogaeth. Bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth fel: -</p> <ul style="list-style-type: none"> - Datganiad Ariannol y Gofalwr i gynnwys manylion am enw a dyddiad geni'r plentyn, nifer y diwrnodau o ofal maeth, cyfanswm yr elfennau di-dreth a threthadwy yn ogystal â chyfanswm yr holl daliadau a dderbyniwyd. - Datganiad CThEM yn dangos elfen drethadwy'r Lwfans Gofalwr Maeth - Ffurflen Dreth Hunanasesiad CThEF ddiweddaraf - Crynodeb/Cyfrifiad diweddaraf y Cyfrifiad Treth <p>Bydd methu â darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi wrth asesu eich cais.</p>
	<p>Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi incwm o Hunangyflogaeth / Cyfarwyddiaeth Cwmni?</p>	<p>Gellir derbyn unrhyw un o'r mathau canlynol o dystiolaeth i brofi incwm o Hunangyflogaeth / Cyfarwyddiaeth Cwmni:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffurflen Dreth Hunanasesu CThEF Bydd angen i hwn ddangos fel y'i cyflwynwyd. • Cyfrifiad Treth Hunanasesiad CThEF. Bydd angen i hyn ddangos ei fod wedi'i gwblhau 100% a'i gyflwyno. • Llythyr gan Gyfrifydd i gadarnhau'r incwm trethadwy a dderbyniwyd. Rhaid i'r llythyr hwn gael ei lofnodi a'i ddyddio gan y Cyfrifydd a bod ar bapur pennawd. A chynnwys unrhyw ddifidendau a dalwyd. • Datganiad Cyfrifon <p>Bydd methu â darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi wrth asesu eich cais.</p>
	<p>Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi incwm o Dir, Eiddo neu Dai ar rent sydd wedi'u dodrefnu?</p>	<p>Gellir derbyn unrhyw un o'r mathau canlynol o dystiolaeth i brofi incwm o Dir, Eiddo neu Dai ar rent sydd wedi'u dodrefnu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffurflen Dreth Hunanasesu CThEF. Bydd angen i hwn ddangos fel y'i cyflwynwyd. • Cyfrifiad Treth Hunanasesiad CThEF. Bydd angen i hyn ddangos ei fod wedi'i gwblhau 100% a'i gyflwyno. • Llythyr gan Gyfrifydd i gadarnhau'r incwm trethadwy a dderbyniwyd. Rhaid i'r llythyr hwn gael ei lofnodi a'i ddyddio gan y Cyfrifydd a bod ar bapur pennawd. <p>Os nad yw Ffurflen Dreth y flwyddyn ariannol ddiweddaraf ar gael eto yna efallai y byddwn yn gallu derbyn ffurflen dreth y flwyddyn ariannol flaenorol ynghyd â llythyr o esboniad wedi'i lofnodi.</p>

		Bydd methu â darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi wrth asesu eich cais.
	Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi incwm o Bensiynau?	<p>Gellir derbyn unrhyw un o'r mathau canlynol o dystiolaeth i brofi incwm o Bensiynau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tystysgrif P60 o Enillion o Bensiwn. • Slip cyflog mis Mawrth (wythnos 52/53 neu fis 12) yn dangos ffigur y flwyddyn hyd yma. • Llythyr gan y Gwasanaeth Pensiwn yn cadarnhau Pensiwn y Wladwriaeth • Datganiad Pensiwn <p>Bydd methu â darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi wrth asesu eich cais.</p>
	Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi incwm o lwfansau trethadwy?	<p>Os yw eich Rhiant(rhieni) / Priod / Partner Sifil / Partner yn derbyn incwm o lwfansau trethadwy (er enghraifft taliadau car cwmni, costau teithio, yswiriant meddygol ac ati) gellir derbyn unrhyw un o'r canlynol fel dystiolaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • P2 (ar gael gan CThEF)/ P11D (ar gael gan y cyflogwr) • Ffurflen Dreth Hunanasesu ddiweddaraf <p>Bydd methu â darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi wrth asesu eich cais.</p>
	Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi incwm o fudd-daliadau trethadwy?	<p>I brofi incwm o fudd-daliadau trethadwy ar gyfer eich rhiant(rhieni) / priod / partner / partner sifil ar gyfer y flwyddyn dreth berthnasol gallwn dderbyn unrhyw un o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llythyr / datganiad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau / Canolfan Byd Gwaith yn dangos naill ai'r cyfanswm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol neu faint a dalwyd yn wythnosol yn ystod y cyfnod hwnnw • P60/ P60U • P45/ P45U <p>Bydd methu â darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi wrth asesu eich cais.</p>
	Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi premiymau Yswiriant Bywyd?	<p>Gellir derbyn y dystiolaeth ganlynol i brofi premiymau Yswiriant Bywyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Polisi Yswiriant Bywyd • Datganiad Yswiriant Bywyd • Llythyr oddi wrth eich Darparwr Yswiriant Bywyd

		Bydd methu â darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi wrth asesu eich cais.
	Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi taliadau morgais?	<p>Gellir derbyn y dystiolaeth ganlynol i brofi taliadau morgais:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datganiad Morgais • Llythyr oddi wrth eich Darparwr Morgeisi
	Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi cyfraniadau pensiwn personol?	<p>Gellir derbyn unrhyw un o'r mathau canlynol o dystiolaeth i brofi cyfraniadau pensiwn personol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llythyr oddi wrth y Cwmni Pensiwn • Datganiad gan y Cwmni Pensiwn <p>Rhaid i gyfraniadau pensiwn ar gyfer pensiynau preifat bob amser ddangos rhyddhad treth ar y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn i ni eu cynnwys fel traul.</p>
	Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi tanysgrifiadau proffesiynol neu dreuliau eraill sy'n denu gostyngiad treth?	<p>Os yw'ch rhiant(rhieni) / priod / partner sifil / partner yn talu tanysgrifiadau proffesiynol neu os oes gennych chi dreuliau eraill sy'n denu gostyngiad treth, gellir derbyn unrhyw un o'r canlynol fel tystiolaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hysbysiad Cod TWE – Ffurflen P2 • Ffurflen Dreth Hunanasesu • Cyfrifiad o Dreth Personol / Cyfrifiant
	Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi taliadau rhent?	<p>Gellir derbyn unrhyw un o'r mathau canlynol o dystiolaeth i brofi taliadau Rhent:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytundeb Tenantiaeth • Datganiad rhent. Rhaid i'r datganiad hwn fod ar bapur pennawd • Llythyr gan eich Landlord yn cadarnhau taliadau. Rhaid i'r llythyr hwn gael ei lofnodi a'i ddyddio a'i ddsbarthu ar bapur pennawd <p>Byddwch yn ymwybodol: ni allwn dderbyn cytundebau anffurfiol megis costau rhent a delir i aelod o'r teulu.</p>

<p>Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i ddangos fy mod wedi cynnal fy hun o fy enillion fy hun am o leiaf 36 mis? Y tu allan i addysg.</p>	<p>Dylai'r dystiolaeth a roddwch fod yn gyfuniad (lle bo'n bosibl) o wahanol fathau o ddogfennau sy'n cwmpasu cyfanswm cyfanredol o 36 mis a gall gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• P60(au)• P45(au)
---	---

		<ul style="list-style-type: none"> • Slip(iau) Cyflog Terfynol (Mawrth – Wythnos 52 neu Fis 12). Fel arall, anfonwch y slip(au) cyflog perthnasol ar gyfer y cyfnod penodol hwnnw o gyflogaeth • Llythyr oddi wrth eich Cyflogwr. Rhaid i hwn fod ar bapur pennawd a chynnwys y cyfnod cyflogaeth, cadarnhad o statws amser llawn neu ran amser, enillion blynyddol, oriau contract a chyfradd tâl. • Ffurflenni Treth Hunanasesiad / Cyfrifiadau Treth • Hanes Gwaith CThEF. Gellir cysylltu â CThEF drwy ffonio 0300 2003300. • Tystiolaeth o Fanteision h.y. llythyrau budd-daliadau neu P60U. Rhaid cadarnhau'r cyfnodau pan oedd gennych hawl i fudd-daliadau. <p>Nid yw 'enillion' yn cynnwys benthyciadau a grantiau myfyrwyr nac unrhyw fath arall o ddyfarniad statudol.</p> <p>Mae cyfnodau o hunangynhaliadaeth yn cynnwys y cyfnodau hynny mewn cyflogaeth amser llawn neu hawlio budd-daliad(au) <i>ond nid ydynt yn cynnwys cyfnodau mewn addysg amser llawn.</i></p> <p>Rhaid dyddio'r holl dystiolaeth a ddarperir cyn dechrau diwrnod cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.</p> <p>Bydd methu â darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi wrth asesu eich cais.</p>
	<p>Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi fy mod yn fyfyrwr annibynnol oherwydd fy mod mewn gofal?</p>	<p>Efallai y cewch eich ystyried yn fyfyrwr annibynnol os oeddech yng ngofal awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol, neu os oeddech o dan orchymyn gwarchodaeth ar eich pen-blwydd yn 18 oed neu yn union cyn eich cwrs os nad ydych yn 18 oed pan fydd yn dechrau. I brofi hyn, bydd angen;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unrhyw ddogfen neu lythyr perthnasol gan weithiwr cymdeithasol Awdurdod Lleol, gweithiwr cymorth neu fudiad gwirfoddol yn cadarnhau dyddiadau ac ati neu; • Dogfennaeth gan y llysoedd neu gyfreithiwr ynghylch y gorchymyn gwarchodaeth
	<p>Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi fy mod yn rhan o urdd grefyddol?</p>	<p>Dylech ddarparu dogfen o'r urdd grefyddol yn cadarnhau eich aelodaeth a'ch preswylad o fewn tŷ'r urdd.</p>

	<p>Pa dystiolaeth alla i ei hanfon i brofi fy mod yn fyfyrwr annibynnol oherwydd bod fy nau riant wedi marw?</p>	<p>I brofi eich bod yn annibynnol bydd angen i chi anfon y ddwy dystysgrif marwolaeth. Os nad yw'r rhain gennych a bod eich rhiant/rhieni wedi marw yn y DU bydd angen i chi gael copïau dyblyg i'w hanfon.</p> <p>Os bu farw eich rhiant(rhieni) y tu allan i'r DU, anfonwch unrhyw ddogfen swyddogol sydd gennych sy'n cadarnhau bod eich rhiant(rhieni) wedi marw dramor.</p> <p>Os nad oes gennych unrhyw ddogfennaeth swyddogol, a fydddech cystal â darparu llythyr eglurhaol yn rhoi gwybod pam na allwch gael dogfen swyddogol a llythyr wedi'i lofnodi gan un o'r canlynol;</p>
--	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog consylaidd - rhywun sy'n gweithio i Lysgenhadaeth neu Gonswl, naill ai wedi'i gyflogi gan lywodraeth y DU neu lywodraeth gwlad arall • Gweinidog yr efengyl – fel Rabbi, Offeiriad neu Imam • Ymarferydd meddygol neu gyfreithiol – rhywun sydd wedi'i gofrestru ar hyn o bryd gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) fel meddyg teulu neu feddyg ymgynghorol • Gwas sifil sefydledig - rhywun sy'n cael ei gyflogi gan y Goron (ac eithrio'r rhai a gyflogir gan y Brenin ei hun) sydd wedi pasio unrhyw gyfnod prawf gorfodol ar gyfer gweithwyr newydd y Gwasanaeth Sifil • Athro – rhywun sydd â chymhwyster addysgu ac sy'n gweithio fel athro ar hyn o bryd • Swyddog heddlu – fel rhywun sy'n gweithio o fewn heddlu'r DU • ar hyn o bryd. Dylai'r llythyr roi manylion y sefyllfa a chynnwys teitl swydd y person, ei gyflogwr, ei fanylion cyswllt, ei berthynas â chi a chael ei ysgrifennu ar bapur pennawd os yw'n berthnasol.
	<p>Beth yw'r meini prawf ar gyfer ymddieithrio a pha dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi fy mod wedi ymddieithrio oddi wrth fy rhiant(rhieni)?</p>	<p>Mae ein Rheoliadau ond yn caniatáu i fyfyrwr gael ei ddsbarthu fel myfyrwr annibynnol, h.y. heb fod yn ddibynnol ar eu rhiant/rhieni, mewn rhai amgylchiadau eithriadol ar sail ymddieithrio anghymodlon. Ystyriw bod myfyrwr wedi ymddieithrio'n anghymodlon oddi wrth ei riant(rhieni) os nad yw wedi cyfathrebu â'r naill na'r llall ohonyn nhw am gyfnod o 12 mis o leiaf. Mae'r cyfrifoldeb ar y myfyrwr i ddarparu tystiolaeth gadarn a dibynadwy i gadarnhau'r ymddieithriad a'r rhesymau drosto.</p> <p>Wrth edrych ar ymddieithrio nid yw'n ddigon nad yw myfyrwr yn cyddynnu â'i riant/rhieni neu ei fod yn bosibl ei fod wedi cael rhyw fath o ddatl neu anghytundeb yn ddiweddar. Hefyd, nid yw'r ffaith y gall myfyrwr ddewis byw ar wahân i'w riant/rhieni ynddo'i hun fod yn ddigon o dystiolaeth o ymddieithrio. Ymhellach, ni ellir ystyried ymddieithrio dim ond oherwydd bod rhiant yn gwrthod cydweithredu wrth asesu grant y myfyrwr, e.e. trwy wrthod llenwi'r ffurflenni cais, neu oherwydd nad yw'r rhiant yn rhoi cymorth ariannol.</p> <p>Os byddwch yn teimlo, o ystyried yr uchod, y gallech fod yn gymwys ar gyfer statws annibynnol oherwydd ymddieithrio anghymodlon oddi wrth eich rhiant(rhieni), bydd angen i chi ddarparu'r canlynol: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llythyr wedi'i lofnodi i gynnwys crynodeb o'ch amgylchiadau. • Byddwn hefyd angen tystiolaeth ysgrifenedig gan gorff allanol, person neu awdurdod i gadarnhau eich hawliad. Dylai'r person annibynnol hwn fod wedi'ch adnabod chi a'ch amgylchiadau am gyfnod sylweddol o amser ond ni ddylai fod yn berthynas neu'n ffrind agos i'r teulu. Dylai'r llythyr neu'r datganiad fod ar bapur pennawd ac yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol am y person annibynnol;-

		<ul style="list-style-type: none"> • Eu henw llawn • Teitl eu swydd • Eu manylion cyswllt • Sut mae nhw'n eich adnabod chi • Ers pryd maen nhw wedi'ch adnabod chi • Ers pryd rydych chi wedi ymddieithrio oddi wrth eich rhieni ac ers pryd maen nhw wedi bod yn ymwybodol o'r amgylchiadau ynglŷn â'r ymddieithrio <p>Os yw'n bwnc sensitif lle nad oes unrhyw gyrff allanol wedi bod yn gysylltiedig, gellir ystyried llythyr gan aelod o'r teulu. Dylai hyn gynnwys eu manylion cyswllt a beth yw eu perthynas â chi, a hefyd yn cadarnhau nad oes unrhyw drydydd parti allanol yn ymwybodol o'ch amgylchiadau.</p> <p>Efallai y byddwch hefyd am ddarparu datganiad eilaidd gan berthynas neu ffrind sydd hefyd yn gwybod am eich amgylchiadau.</p> <p>Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.</p> <p>Bydd methu â darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi wrth asesu eich cais.</p>
	<p>Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi fy mod wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y DU?</p>	<p>Os nad ydych yn ddinesydd y DU ac rydym wedi gofyn i chi ddangos eich bod wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y DU am dair blynedd cyn dechrau eich cwrs, gellir derbyn y dogfennau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Biliau cyfleustodau • Biliau Treth y Cyngor • Cytundeb(au) Tenantiaeth • Datganiadau Morgais • Cyfriflenni banc yn dangos gweithgarwch rheolaidd eich Cyfeiriad yn y DU (tynnu arian / credydau ac ati) • Slipiau cyflog • P60au • Llythyr gan Gyflogwr yn cadarnhau cyfeiriad myfyriwr yn y DU a chyfnodau cyflogaeth. Dylid cyhoeddi'r llythyr hwn ar bapur pennawd. • Llythyr oddi wrth Sefydliad Addysg h.y. Ysgol neu Goleg yn cadarnhau cyfeiriad y myfyriwr yn y DU a chyfnodau cofrestru. Dylid cyhoeddi'r llythyr hwn ar bapur pennawd. • Gellir adolygu unrhyw ddogfennaeth arall sy'n cadarnhau cyfnod eich cyfeiriad yn y DU gan gynnwys y dyddiad cyhoeddi ar ôl yr asesiad.

		Rhaid i'r holl dystiolaeth fod yn wreiddiol; bydd methu â darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi wrth asesu eich cais.
	Rwy'n fyfyrwr o'r UE. Pa dystiolaeth sydd angen i mi ei hanfon i ddangos bod gennyf statws sefydlog yn y DU?	Os ydych yn fyfyrwr o'r UE ac wedi byw yn y DU am 3 blynedd cyn dechrau eich cwrs, bydd gofyn i chi ddarparu'r canlynol: - <ul style="list-style-type: none"> • Pasbort yr UE • Tystysgrif Geni • Llythyr gan y Swyddfa Gartref i gadarnhau eich statws setliad • Tystiolaeth o breswylid yn y DU am 3 blynedd cyn dechrau eich cwrs.
	Rwy'n fyfyrwr o'r tu allan i'r DU. Pa dystiolaeth sydd angen i mi ei darparu i brofi fy statws sefydlog yn y DU?	Os ydych yn fyfyrwr o'r tu allan i'r DU ac wedi byw yn y DU am 3 blynedd cyn dechrau eich cwrs, bydd gofyn i chi ddarparu'r canlynol: - <ul style="list-style-type: none"> • Eich Pasbort • Tystysgrif Geni • Visa DU dilys (Cerdyn Biometrig a Thrwydded Preswylid) • Llythyrau Swyddog Cartref yn cadarnhau'r setliad • Tystiolaeth o breswylid yn y DU am 3 blynedd cyn dechrau eich cwrs. • Gwybodaeth cod rhannu
	Pa dystiolaeth sydd angen i mi ei hanfon os oes rhywun arall ar fy nghais yn fyfyrwr?	Bydd y dystiolaeth sydd ei hangen yn dibynnu ar y rheswm dros eu datgan ar eich cais. <p>Wedi'i enwi fel Person 1 neu 2 ar gyfer yr adran Dyfarniad Sylfaenol</p> <p>Bydd angen tystiolaeth arnom i ddangos eu bod yn fyfyrwr yn y flwyddyn ariannol flaenorol hefyd am yr un Flwyddyn Academaidd yr ydych yn gwneud cais amdani (os yw'n berthnasol).</p> <p>Os oedden nhw mewn Addysg Uwch ac yn derbyn cyllid, megis Cyllid Myfyrwyr, bydd angen eu Llythyr Dyfarniad arnom (yn dangos bod y dyfarniad wedi'i asesu ar sail incwm).</p> <p>Os nad oedden nhw'n derbyn cyllid, byddai angen llythyr gan y Sefydliad Addysg Uwch neu'r Coleg yn cadarnhau eu bod wedi cofrestru. Bydd angen llythyr oddi wrth eu Prifysgol a derbynebau/anfonebau Ffioedd Dysgu yn dangos eu bod wedi ariannu eu hunain.</p> <p>Os caiff eich dau riant eu datgan ar y cais a bod un ohonynt</p>

yn derbyn cyllid wedi'i asesu ar sail incwm ar gyfer cwrs addysg uwch, dylech hefyd anfon eu hysbysiad dyfarniad blwyddyn academiaidd gyfredol. Rhaid i hyn gwmpasu'r un flwyddyn academiaidd yr ydych yn gwneud cais amdani.

Os cafwyd unrhyw incwm trethadwy, er enghraifft, cyflogaeth ran amser, bydd angen datgan hyn hefyd ar y cais a'r dystiolaeth a ddarparwyd.

Wedi'i enwi fel Plentyn Dibynnol Arall i Berson 1 neu 2

Os yw'r plentyn dibynnol arall a gofrestrwyd ar y cais mewn Addysg Bellach, bydd angen un o'r canlynol arnom:

- Llythyr gan y Sefydliad Addysg Bellach yn cadarnhau cofrestriad neu bresenoldeb ar gyfer y flwyddyn academiaidd berthnasol
- Llythyr Budd-dal Plant yn dangos taliadau budd-dal plant

Os oes dibynnydd arall mewn Addysg Uwch yn ystod yr un Flwyddyn Academiaidd, bydd angen y canlynol arnom:

- Llythyr Dyfarniad Cyllid Myfyrwyr (yn dangos bod y dyfarniad wedi'i asesu ar sail incwm) ar gyfer yr un Flwyddyn Academiaidd yr ydych yn gwneud cais amdani.
- Os ydych hefyd yn derbyn bwrsariaeth drwy GIG Cymru, a fyddech cystal â darparu naill ai gopi o'u Hysbysiad o Ddyfarniad diweddaraf neu Lythyr yn cadarnhau manylion yr unigolyn – Enw, Cyfeirnod BOSS SAS, Cwrs, Prifysgol, Carfan a Dyddiad Geni.

Bydd angen Tystysgrif Geni arnom hefyd ar gyfer unrhyw blentyn dibynnol a nodir ar y cais.

Wedi'i enwi yn yr adran Lwfans Dibynnydd: Eich

plentyn

Os yw eich dibynnydd mewn addysg bellach, bydd angen y canlynol arnom:

- Tystysgrif Geni Fersiwn Hir
- Llythyr gan y Sefydliad Addysg Bellach yn cadarnhau cofrestriad neu bresenoldeb ar gyfer y flwyddyn academiaidd berthnasol
- Llythyr Budd-dal Plant yn dangos taliadau budd-dal plant
- Credyd Cynhwysol / Hysbysiad Dyfarnu Credydau Treth

Eich priod / partner sifil / partner

Os yw eich priod / partner sifil / partner yn derbyn arian cyhoeddus, bydd angen eu hysbysiad o ddyfarniad arnom. Rhaid i hwn ddangos dadansoddiad clir o'r elfennau sy'n rhan o'r dyfarniad a rhaid iddo gwmpasu'r un flwyddyn academiaidd yr ydych yn gwneud cais amdani.

Os nad yw eich priod / partner sifil / partner yn derbyn unrhyw arian cyhoeddus, bydd angen un o'r canlynol arnom:

- Llythyr wedi'i lofnodi gan eu corff ariannu yn dangos nad ydyn nhw'n gymwys i gael cyllid.

		<ul style="list-style-type: none"> • Llythyr wedi'i lofnodi gan y Coleg, y Chweched Dosbarth neu'r Brifysgol yn cadarnhau nad oes cyllid ar gael. • Os ydyn nhw'n dewis peidio â gwneud cais am arian cyhoeddus, bydd angen llythyr gan eu prifysgol a derbynebau / anfonebau Ffioedd Dysgu yn dangos eu bod wedi ariannu eu hunain.
	<p>Pa dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer fy rhiant(rhieni) neu blant dibynnol eraill fy mhartner</p>	<p>Mae arnom angen un o'r canlynol er mwyn eich adnabod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tystysgrif Geni <p>Os nad oes Tystysgrif Geni ar gael, gallwn dderbyn y canlynol: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pasbort • Trwydded Yrru • Tystysgrif Mabwysiadu <p>Os yw'r dibynnydd mewn addysg bellach, mae angen un o'r canlynol yn ogystal â dogfennau adnabod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llythyr gan y sefydliad addysg bellach yn cadarnhau presenoldeb neu gynnig lle (6ed dosbarth / coleg). • Llythyr Budd-dal Plant cyfredol yn cadarnhau taliadau parhaus i'r flwyddyn academaidd briodol. <p>Os yw'r dibynnydd mewn addysg uwch, mae angen y canlynol yn lle'r dogfennau adnabod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llythyr dyfarnu Cwmni Benthyciad i Fyfyrrwyr / Cyllid Myfyrrwyr.
	<p>Pa dystiolaeth sydd ei hangen i hawlio Lwfans Dibynnydd?</p>	<p>Mae angen y dystiolaeth ganlynol os ydych yn dymuno hawlio Lwfans Dibynnydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prawf o'r holl incwm a threuliau a ddatganwyd ar yr adran Lwfans Dibynnydd yn eich cais. • Tystysgrif(au) geni fersiwn hir (sy'n cynnwys manylion y rhiant/rhieni) ar gyfer yr holl blant dibynnol yr ydych yn dymuno gwneud cais ar eu cyfer. • Un math o ID ar gyfer eich priod / partner sifil / partner (os yw'n berthnasol). Yn ddelfrydol dylai hyn fod yn Dystysgrif Geni, Pasbort neu Drwydded Yrru. Os yw eich partner yn ddinesydd o'r tu allan i'r DU/UE, rydym hefyd angen eu pasbort, llythyr gan y Swyddfa Gartref a Fisa Dilys y DU. • Llythyr Budd-dal Plant diweddar dyddiedig o fewn y 3 mis diwethaf, neu byddwn yn derbyn sgrin luniau os oes gennych fynediad i gyfrif Porth y Llywodraeth, rhaid i ni allu gweld eich enw a manylion plentyn/plant. • Hysbysiad o Ddyfarniadau Credydau Treth diweddaraf / llythyr Credyd Cynhwysol. • Bil Treth y Cyngor diweddaraf yn dangos eithriad myfyrrwyr llawn (ar gyfer Ymgeiswyr Sengl yn unig). Ar gyfer Myfyrrwyr Newydd, efallai y byddwn yn derbyn Biliau Treth y Cyngor sy'n dangos Gostyngiad Person Sengl cyn dechrau'r cwrs.

--	--	--

		<p>Os yw'r plentyn dros 16 oed ac yn dal mewn addysg amser llawn, rydym angen tystiolaeth o hyn, er enghraifft llythyr Budd-dal Plant (neu gyfriflen banc</p> <p>diweddar) Llythyr Dyfarniadau Credyd Treth/Credyd Cynhwysol a llythyr cofrestru gan Sefydliad Addysg Bellach.</p>
	<p>Rwy'n gwneud cais am Lwfans Dibynnydd , a gofynnwyd i mi ddarparu tystiolaeth o Gredydau Treth / Credyd Cynhwysol. Nid wyf yn derbyn y lwfansau. Beth ddylwn i ei wneud?</p>	<p>Os nad ydych wedi gwneud cais am Gredydau Treth neu Gredyd Cynhwysol, darparwch lythyr wedi'i lofnodi yn amlinellu'r rhesymau pam nad ydych chi wedi gwneud cais am y lwfansau hyn.</p> <p>Os nad ydych yn gymwys ar gyfer y lwfansau hyn, darparwch lythyr eglurhaol yn cadarnhau hyn a thystiolaeth ategol i ddangos nad ydych yn gymwys, h.y. llythyr gan CThEF yn cadarnhau nad ydych yn gymwys neu gyfriflen / dyfarniad yn dangos credydau treth / credyd cynhwysol fel £0.</p>
	<p>Pryd mae angen i mi anfon fy nghytundeb tenantiaeth neu ddatganiad morgais?</p>	<p>Bydd yn rhaid i chi anfon cytundeb tenantiaeth/datganiad morgais atom yn y sefyllfaoedd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Os ydych wedi hawlio 'cyfradd cartref rhieni' yn y flwyddyn academaidd flaenorol a nawr eisiau newid i 'gyfradd rhywle arall' ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod. • Os ydych wedi gwneud cais am Lwfans Dibynnydd ac wedi datgan treuliau eich priod / partner sifil / partner ar eich cais.

<p>Pa fathau o ID fyddwch chi'n eu derbyn?</p>	<p>Rydym yn derbyn y ffurfiau canlynol o ID:</p> <ul style="list-style-type: none">• Tystysgrif Geni - Gallwn dderbyn y naill fersiwn neu'r llall; byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen fersiwn hir arnom yn benodol am ryw reswm.• Pasbort• Trwydded Yrru - Dim ond y cerdyn-llun sydd ei angen arnom; gallwn hefyd dderbyn trwydded dros dro.• Cerdyn Preswyllo Biometrig - Gallwn dderbyn hwn os na allwch ddarparu'r dogfennau adnabod â llun y gofynnwyd amdanynt. <p>Yn y flwyddyn gyntaf y byddwch yn gwneud cais am gyllid y GIG gofynnir i chi anfon eich tystysgrif geni a naill ai pasbort neu drwydded yrru. Fodd bynnag, os oes gennych Dystysgrif Geni nad yw'n dod o'r DU byddai angen eich pasbort arnom yn hytrach na'r drwydded yrru er mwyn cadarnhau eich cenedligrwydd at ddibenion hawliau.</p> <p>Bydd methu â darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi wrth asesu eich cais.</p>
--	---